Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Nodyn Briffio: Adolygiad o gyllido'r BBC

## Tystiolaeth ynghylch pwysigrwydd trefniadau cyllido'r BBC i siaradwyr Cymraeg a'r economi greadigol yng Nghymru

Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi y gall Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau gynnig cyngor a/neu sylwadau i unrhyw berson. Yn y cyd-destun hwnnw, ac yn unol â rôl y Comisiynydd fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg, rydym yn darparu'r sylwadau isod ynghylch pwysigrwydd darlledu Cymraeg ei iaith i siaradwyr Cymraeg ac i'r economi greadigol yng Nghymru.

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi lansio adolygiad o sut y dylid ariannu'r BBC yn y dyfodol, ac fel rhan o hyn mae bwriad ystyried sut gallai unrhyw newidiadau effeithio ar drefniadau cyllido darlledu drwy ieithoedd lleiafrifol. Pwrpas y briff hwn yw rhannu tystiolaeth ynghylch pwysigrwydd cyllid cyhoeddus i ddarlledu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb

- Rhaid i bwysigrwydd darlledu yn y Gymraeg, yn ddiwylliannol, yn economaidd, ac er budd ffyniant yr iaith fod yn rhan greiddiol o'r adolygiad. Mae nifer o faterion penodol a neilltuol sydd angen sylw yng nghyswllt darlledu yn y Gymraeg, ac mae angen ystyried yn llawn oblygiadau unrhyw opsiynau cyllido amgen ar ddarpariaeth iaith Gymraeg yn y dyfodol.
- Mae darlledu Cymraeg ei iaith yn ddibynnol ar wasanaethau darlledu a ariennir gan y pwrs cyhoeddus. Mae'n aneglur ar hyn o bryd sut y bydd y BBC, ac felly ei wasanaethau Cymraeg, ac S4C yn cael eu hariannu y tu hwnt i 2027. Mae'r ansicrwydd ynghylch trefniadau cyllido darlledu cyhoeddus drwy'r ffi drwydded yn y dyfodol yn cyflwyno peryglon real i ffyniant diwylliant Cymru a'r Gymraeg.
- Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bwysigrwydd cyllido darlledu Cymraeg ei iaith i siaradwyr Cymraeg, i ddyfodol yr iaith Gymraeg, ac i economi greadigol Cymru.
- Rhaid sicrhau bod cefnogaeth a chyllid digonol ar gael i'r dyfodol i sicrhau y bydd modd i S4C, y BBC ac eraill ddarparu arlwy addas yn y Gymraeg i gyd-fynd â'r newidiadau yn y byd digidol ac i gyfrannu'n llawn at weledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Rhaid sicrhau bod trefniadau cyllido'r dyfodol yn cryfhau ac ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg sy'n bodoli heddiw.
- Mae'n bwysig peidio ystyried gwerth darlledu cyfrwng Cymraeg ar sail 'gwerth am arian' yn bennaf neu'n unig. Nid elw masnachol neu ddarparu adloniant yn unig yw rôl cyfryngau mewn ieithoedd llai.
- Dylid canolbwyntio ar rôl y cyfryngau darlledu Cymraeg yn amlygu a normaleiddio'r iaith; yn addysgu a chefnogi siaradwyr yn eu defnydd o'r Gymraeg; yn cynyddu ei gwerth a'i statws; ac yn atgyfnerthu'r economi a chymunedau.

## 1. Cefndir

1.1 S4C a'r BBC yw'r prif ddarlledwyr sy'n darparu yn y Gymraeg yng Nghymru. Mae S4C fel y BBC yn derbyn ei chyllid i gyd o ffi'r drwydded.

1.2 S4C yw'r unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg, ac mae'n wasanaeth aml-blatfform sy'n cynnwys sianel deledu, a darpariaeth ddigidol/ar-lein i gynulleidfaoedd yng Nghymru a thu allan i Gymru hefyd.

1.3 Mae perthynas agos rhwng S4C a'r BBC, ac mae Deddf Darlledu 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn darparu dim llai na 520 awr o gynnwys i S4C bobl blwyddyn. Y BBC hefyd yw prif ddarparwr cynnwys cyfrwng Cymraeg ar y radio, a'r unig un sy'n darlledu yn Gymraeg yn unig. Prin yw'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael ar orsafoedd radio masnachol.

## 2. Pwysigrwydd darlledu wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol

2.1 Mae darlledu yn chwarae rhan hollbwysig wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ar draws y byd ac yng Nghymru yn arbennig. Mae 'Argymhellion Oslo ar hawliau ieithyddol lleiafrifoedd cenedlaethol' yn amlygu pwysigrwydd sicrhau mynediad ar gyfer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol at wasanaethau darlledu sy'n cwrdd â'u hanghenion ieithyddol. Mae'r argymhellion hefyd yn nodi fod y 'cyfryngau yn aml yn chwarae rhan allweddol yn hyrwyddo a gwarchod iaith, diwylliant a hunaniaeth.'

2.2 Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, ac ymhlith y cymalau sy'n berthnasol i'r Gymraeg mae Erthygl 11 - Y Cyfryngau. Mae'r adran hon yn cynnwys cymalau sy'n cyfeirio at egwyddorion pwysig yng nghyd-destun darlledu mewn ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

2.3 Ar lefel Brydeinig, un o bwrpasau gwasanaeth darlledu cyhoeddus yw ateb gofynion a bodloni diddordebau cynulleidfaoedd. Yn ôl canllawiau Ofcom disgwylir y bydd darlledwyr cyhoeddus yn cyflawni'r pwrpas o adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU. Yn unol â hynny, gellir cymryd y dylai gwasanaeth ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru ateb gofynion a bodloni diddordebau'r gyfran sylweddol o'r gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg.

2.4 Mae'n bwysig bod y Llywodraeth y DU yn parhau i weithredu yn unol â'r egwyddorion hyn trwy barhau i gefnogi darlledu yn y Gymraeg.

## 3. Pwysigrwydd darlledu Cymraeg ei iaith i siaradwyr Cymraeg ac i ddyfodol yr iaith

3.1 Mae darlledu Cymraeg yn eithriadol o bwysig o safbwynt amlygrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i bobl glywed a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r rôl hwnnw yn gwbl allweddol heddiw o ystyried amlygrwydd y cyfryngau digidol yn ein bywydau bellach. Nid yn unig mae darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi drych a mynegiant i ddyheadau a bywydau'r bobl hynny sy'n siarad yr iaith, ond mae hefyd yn denu siaradwyr newydd.

3.2 Yn y cyd-destun uchod mae'n bwysig cofio dau beth. Yn gyntaf bod y Gymraeg yn bodoli ochr yn ochr ag iaith sydd drechaf yn niwylliant poblogaidd byd-eang, a hynny yn arbennig wrth ystyried

dylanwad darlledu a’r cyfryngau Saesneg. Ac yn ail, bod darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddibynnol ar y gwasanaethau hynny sy’n cael eu hariannu gan ffi’r drwydded.

3.3 Yng nghyd-destun strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru mae’n bwysig bod siaradwyr Cymraeg a phobl sy’n dysgu’r iaith yn cael mynediad at wybodaeth a chynnwys mewn meysydd sy’n eu diddori. Mae normaleiddio’r Gymraeg ar y cyfryngau yn ffordd amlwg o wneud hynny ac ar hyn o bryd mae ffi’r drwydded yn gwbl allweddol ar gyfer gwneud hyn.

3.4 Mae Adroddiad Blynyddol S4C ar gyfer 2022-23 yn rhoi syniad i ni ynghylch arwyddocâd darlledu yn y Gymraeg a’r cyfraniad mae gwasanaethau o’r fath yn ei wneud:

- Cyrhaeddiad wythnosol S4C (yng Nghymru) wedi cynyddu i 324,000 – yr uchaf ers pum mlynedd
- Cyfran gwylio S4C yr uchaf ers degawd
- Cynulleidfa dal-i-fyny S4C ar ei uchaf erioed
- Cynnydd o 10% yn oriau gwylio rhaglenni S4C ar draws Clic ac iPlayer, ac oriau gwylio S4C ar YouTube bron wedi dyblu
- Yn wahanol i’r duedd ymysg cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, mae proffil oedran cynulleidfa S4C wedi mynd yn iau

3.5 Er bod darpariaeth S4C yn bwysig yn ei chyfanrwydd, gellir tynnu sylw penodol at wasanaeth y sianel i blant a phobl ifanc a dysgwyr, sef y ddarpariaeth sy’n eithriadol o allweddol ar gyfer cefnogi siaradwyr newydd a hybu’r defnydd a wneir o’r iaith.

3.6 Mae gwasanaethau ar-lein S4C, gan gynnwys gwasanaeth poblogaidd Hansh, a hefyd arlwy chwaraeon byw S4C yn hanfodol, nid yn unig yn denu pobl ifanc at y gwasanaeth, ond hefyd yn denu cynulleidfaoedd newydd sydd efallai ddim yn siarad Cymraeg.

3.7 Mae’r ffaith bod Hansh, mewn cyfnod o fis yn unig ddechrau 2020, wedi denu dros filiwn o sesiynau gwylio ar draws Twitter, Facebook ac Youtube, eto yn rhoi syniad o bwysigrwydd y gwasanaethau hyn o ran darparu cynnwys a phrofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc.

3.8 Maes S4C hefyd wedi sefydlu partneriaeth iaith â Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Esgorodd hyn ar gydweithio rhwng y sianel a chyrff fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu adnoddau pwrpasol ar gyfer dysgwyr i gyd fynd â nifer o gyfresi poblogaidd fel *Iaith ar Daith*.

3.9 Mae darpariaeth radio Cymraeg BBC Cymru a gwasanaethau ar-lein BBC Cymru Fyw hefyd yn chwarae rhan allweddol yn cynnal a chryfhau sefyllfa’r iaith Gymraeg a’i diwylliant. Mae Bwrdd y BBC yn ddiweddar wedi penderfynu darparu rhagor o oriau Cymraeg gwreiddiol gan BBC Radio Cymru 2, sydd yn dyst i lwyddiant a phwysigrwydd y ddarpariaeth hon.

3.10 Wrth edrych i’r dyfodol, mae’r cyfryngau darlledu am fod yn ganolog i’r ymdrechion i adfywio’r Gymraeg. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed a’i defnyddio ar y cyfryngau darlledu a gwasanaethau digidol yn her anferth. Mae’r ffyrdd y bydd y BBC a S4C yn cael eu hariannu o 2027 ymlaen yn hollbwysig er mwyn ymateb i’r her hwn, ac er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed a’i gweld fel rhan arferol o fywydau pobl yng Nghymru.

## 4. Pwysigrwydd y cyfryngau Cymraeg i'r economi greadigol yng Nghymru

4.1 Rhaid cydnabod pwysigrwydd darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg i hyfywedd yr iaith yn economaidd yn ogystal ag yn gymunedol.

4.2 Mae'r cyfryngau darlledu yn rhoi troedle economaidd pwysig i'r Gymraeg drwy roi gwerth i sgiliau Cymraeg yn y gwaith a chynnig cyfleoedd gwaith yn y Gymraeg. Mae'r sector diwydiannau creadigol yn faes cyflogaeth lle gwelir galw clir am siaradwyr y Gymraeg, yn enwedig yn y sector radio, cyfryngau rhyngweithiol, hysbysebu, ffilm ac animeiddio.

4.3 Mae cyfraniad economaidd ehangach gan y diwydiant darlledu cyfrwng Cymraeg yn cynnwys cefnogi cwmnïau annibynnol i dyfu, a chefnogi cadwyni cyflenwi mewn ardaloedd ar draws Cymru.

4.4 Mae'r cyfraniad economaidd hwn yn arbennig o arwyddocaol yn y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg ar ei chryfhaf. Heb os, mae'r diwydiant darlledu cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at hyfywedd y cymunedau hyn.

4.5 Yn eu hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22 cyfeiria S4C at ymchwil a gomisiynwyd gan gwmni ymchwil Arad. Canfu'r ymchwil y cyfrannodd S4C £197.4m at economi'r DU yn 2019-20, ac £141.1m at economi Cymru. Golyga hyn am bob £1 o incwm a dderbyniodd S4C yn 2019-20 crëwyd effaith economaidd o £2.03 ar economi'r DU, £1.45 ar economi Cymru a £0.19 yn Sir Gaerfyrddin lle mae pencadlys S4C bellach.

4.6 Enghraifft arall o gyfraniad economaidd darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg yw bod adroddiad ymchwil gan gwmni Arad ar ran S4C wedi adrodd bod ffilmio cyfres gyntaf Y Gwyll/Hinterland wedi cyfrannu £1 miliwn at economi leol Ceredigion.